| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **22, MAI, 2008** |
| **TESTUN** | **DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD – HAWLIAU DIRPRWYEDIG.** |
| **AWDUR** | **PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD.** |
| **GWEITHREDIAD:** | **CYMERADWYO'R DIWYGIADAU I'R CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG PWYLLGORAU A CHYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION FEL Y AMLINELLIR YN YR ARGYMHELLIAD** |

1. Gofynnir i'r Cyngor ddiwygio'r Cyfansoddiad drwy ychwanegu at y Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Bwyllgorau a'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion fel yr amlinellir isod.

**(a) <u>Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Bwyllgorau.</u>**

2. Ar y 29ain o Ionawr, 2008 fe benderfynodd Bwrdd y Cyngor fabwysiadu cytundeb cyfreithiol newydd i reoli consortiwm trafnidiaeth, Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TRaCC) sy'n bartneriaeth rhwng cynghorau Ceredigion, Gwynedd a Phowys. Un o amodau'r cytundeb oedd sefydlu cydbwyllgor newydd rhwng y 3 chyngor i ymdrin â'r materion a nodir yn Atodiad 'A' i'r adroddiad hwn. Mae dau aelod o bob Cyngor yn gwasanaethu ar y cydbwyllgor.

3. Yn sgil penderfyniad y Bwrdd mae gofyn i'r Cyngor yn ffurfiol ddiwygio'r Cyfansoddiad drwy ychwanegu TRaCC at ei restr o gydbwyllgorau a dirprwyo iddo yr hawl i weithredu mewn perthynas â'r materion yn Atodiad 'A'.

**(b) <u>Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion – Amgylchedd o Ansawdd.</u>**

Hefyd ar y 29ain o Ionawr, 2008 fe gymeradwyodd y Bwrdd prosiect Amgylchedd o Ansawdd sydd, ymysg pethau eraill, yn cynnwys sefydlu tîm gorfodaeth o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymdrin â throseddau amgylcheddol yn ymwneud â gwastraff ysbwriel, baw cŵn, cerbydau wedi eu gadael, graffiti a phosteri, a.y.b.

4. Er mwyn i'r tîm hwn gychwyn ar ei waith, mae gofyn i'r Cyngor yn ffurfiol ddiwygio y Cynllun Hawliau Dirprwyo i Swyddogion er mwyn dirprwyo'r hawliau perthnasol i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

5. Rhestrir yr Hawliau Dirprwyedig hyn yn Atodiad 'B' i'r adroddiad hwn.

**(c) <u>Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion – Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol.</u>**

6. Dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol 2003 mae gan yr heddlu hawl i awdurdodi'r defnydd o orchmynion gwasgaru ("dispersal orders") sy'n caniatau i blismon roi cyfarwydd i grŵp o bobl ifanc i wasgaru a pheidio ag ymgasglu mewn un man.

7. Cyn awdurdodi'r defnydd o'r gorchmynion mae'n rhaid i'r heddlu gael caniatâd y Cyngor. Argymhellir dirprwyo'r hawl i roi caniatâd i'r Cyfarwyddwr Strategol (Gofal).

8. **<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

Argymhellir bod y Cyngor :-

(a) Yn diwygio'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Bwyllgorau drwy ychwanegu Cyd-bwyllgor TRaCC at y rhestr pwyllgorau a dirprwyo iddo'r hawliau a geir yn Atodiad 'A' i'r adroddiad hwn.

(b) Diwygio'r Cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion drwy ychwanegu at Hawliau Dirprwyedig y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, y pwerau a'r dyletswyddau yn Atodiad 'B'.

(c) Diwygio'r cynllun Hawliau Dirprwyedig i Swyddogion drwy ychwanegu at hawliau dirprwyedig y Cyfarwyddwr Strategol Gofal yr hawl i roi caniatâd dan Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol 2003.

# ATODIAD ‘A’

**CYD-BWYLLGOR TRaCC.**

Cyflawni’r swyddogaethau isod mewn perthynas â chynlluniau cludiant rhanbarthol yn ardal Meirionnydd o Wynedd ac yn siroedd Powys a Cheredigion:

1.1 gan ystyried [polisiau’r Cyngor] paratoi strategaethau rhanbarthol gan gynnwys polisïau, cynlluniau a rhaglenni cludiant;

1.2 cymeradwyo cynigion am Gyllid ar gyfer Strategaethau Cymeradwy, a chyfeirio hyn at yr Awdurdodau Rheoli i wneud cais am gyllid.

1.3 gweithredu’r Strategaethau Cymeradwy ar yr amod bod project wedi cael ei Gyllido;

1.4 cael cyngor, cymorth a gwasanaethau addas ynghyd a chymeradwyaeth i’r strwythur staffio a chaffael ymgynghorwyr a chynghorwyr;

1.5 darparu cyngor i’r Awdurdodau ar bolisi strategol, rhanbarthol a lleol a materion cludiant gweithredol yn y Rhanbarth, ac

1.6 ymateb i ymgynghoriadau sydd â goblygiadau o ran cludiant rhanbarthol;

1.7 cymeradwyo’r trefniadau cytundebol y cynigir bod yr Awdurdodau Rheoli’n ymgymryd iddynt ar ran yr holl Awdurdodau;

1.8 gwneud unrhyw beth arall yn unol ag amodau’r Cytundeb fel y cytuna’r Awdurdodau o bryd i’w gilydd.

# ATODIAD 'B'

**HAWLIAU A DDIRPRWYIR I'R PENNAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL.**

**1.** Y Pŵer i weithredu hawliau gorfodaeth mewn perthynas â throseddau amgylcheddol sy'n codi dan unrhyw un o'r Deddfau a restrir isod (gan gynnwys camau a fo'n angenrheidiol i atal troseddu, addysgu a rhoi rhybuddion cosb penodedig) :-

Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996

Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

Rheoliadau Symud a Chael Gwared a Cherbydau 1986.

Deddf Cael Gwared o Ysbwriel (Mwynder) 1978

Deddf Amgylchedd a Chymdogaethau Glân 2005

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989.